YR ATODLEN

Erthyglau 4 a 5

# RHAN 1

## Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 2 Ionawr 2008

| *Darpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 18(1) | Diddymu pwerau gwneud grantiau |
| Adran 26 | Cydweithredu rhwng ysgolion |
| Adran 31 at bwrpas gwneud rheoliadau | Rheoli mangreoedd ysgolion |
| Adran 38 | Gohebu ag ysgolion |
| Adrannau 57 i 59 | Aelodau gweithredol interim |
| Adran 75 yn llawn | Ad-drefnu ysgol |
| Adran 146 yn llawn | Diddymu adrannau 218 a 218A o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 |
| Adran 151(1) | Swyddogaethau gofal plant |
| Adran 152 yn llawn | Rheoleiddio gwarchod plant a gofal dydd |
| Adran 178(2) | Hyfforddiant ac addysg yn y gweithle |
| Adran 187 | Parthau camau addysg |
| Adran 215 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlenni 21 a 22 isod | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau |
| Atodlen 6 | Aelodau gweithredol interim |
| Atodlen 10 yn llawn | Ad-drefnu ysgol |
| Atodlen 13, paragraff 4 | Gwarchod plant a gofal dydd |
| Atodlen 15 | Parthau camau addysg |
| Atodlen 21, paragraffau 3, 5, 6, 7, 10, 15, 55, 69, 71, 79, 80, 82, 84, 90, 111, 115 (5)(b), 124(1) a (2), 126(3) yn llawn | Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol |
| Yn Rhan 3 o Atodlen 22, diddymu— | Diddymu |
| Deddf Addysg 1967 | |
| Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, yn Atodlen 2, paragraff 4. | |
| Deddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, adran 1(6). | |
| Deddf Addysg 1986, adran 1(1)(b) a'r gair "and" yn union o'i blaen; adrannau 2 i 4. | |
| Deddf Diwygio Addysg 1988, adrannau 160, 210, 211, 218 (yn llawn). | |
| Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, adran 98(2)(c)(ii). | |

| *Darpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, yn adran 37, is-adran (1)(b) a'r gair “or” yn union o'i blaen ac is-adrannau (8)(a) a (9), yn Atodlen 8, paragraffau 46, 47, 49, 83. | |
| Deddf Addysg 1994, yn Atodlen 2, paragraff 8(4). | |
| Deddf Addysg Feithrin ac Ysgolion a Gynhelir â Grant 1996. | |
| Deddf Addysg 1996, yn adran 318, yn is-adran (3A) paragraff (b) a'r gair “or” yn union o'i blaen, yn adran 484, yn is-adran (2) y geiriau “England and” ac is-adran (6), adrannau 486 i 488, adran 491, yn adran 509A(5)(b), is-baragraff (ii) a'r gair “or” yn union o'i blaen, yn adran 545(2)(a), y geiriau “or section 218(7) of the Education Reform Act 1988”, yn adran 548(8), ym mharagraff (b), is-baragraff (ii) a'r gair “or” o flaen yr is-baragraff hwnnw, yn adran 578, y cofnodion ynghylch Deddf Addysg 1967 a Deddf Addysg Feithrin ac Ysgolion a Gynhelir â Grant 1996, yn Atodlen 37, paragraff 13, paragraffau 76 a 131. | |
| Deddf Addysg 1997, adran 49 (yn llawn), yn Atodlen 7, paragraffau 8, 14, 27, 28. | |
| Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, adrannau 10, 11, 13, 18, yn Atodlen 3, paragraff 5. | |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adrannau 3, 10(3) a (7), yn adran 11, yn is-adran (2) y geiriau o “and” hyd at y diwedd, ac is-adran (3), yn Atodlen 4, paragraff 5(4)(e), yn Atodlen 26, ym mharagraff 1, is-baragraff (1)(c) a'r gair “or” o'i flaen, yn Atodlen 30, paragraffau 14, 17, 56, ym mharagraff 74 is-baragraffau (2) a (3) ac yn is-baragraff (4) paragraff (b) a'r gair “and” o'i flaen, paragraffau 85 i 90. | |
| Deddf Dysgu a Medrau 2000, yn Atodlen 9, paragraffau 18, 58, ym mharagraff 59, is-baragraff (7)(b) ac (c) a pharagraff 91. | |

# RHAN 2

## Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mawrth 2008

| *Darpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 31 yn llawn | Rheoli mangreoedd ysgolion |
| Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod | Diddymiadau |
| Yn Rhan 3 o Atodlen 22, diddymu— | Diddymu |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 40, Atodlen 13 | |

# RHAN 3

## Darpariaethau trosiannol ac arbed

**1.** Er bod adran 38 yn dod i rym, nid yw'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad o dan adran 38(3) yn gymwys o ran unrhyw flwyddyn academaidd cyn y flwyddyn academaidd 2008 i 2009.

**2.** Er bod adran 218(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn cael ei diddymu, mae Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002(**1**) yn parhau mewn grym (a gallant gael eu diwygio neu eu dirymu gan reoliadau a wneir o dan adran 136(a)).

**3.** Er bod adran 218(1)(e) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn cael ei diddymu, mae rheoliadau 4, 5 a 7 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 ac Atodlen 1 iddynt(**2**) yn parhau mewn grym (a gallant gael eu diwygio neu eu dirymu gan reoliadau a wneir o dan adran 203(3)).

(**1**) O.S. 2002/1663 (Cy. 158).
(**2**) O.S. 1989/351.